CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 12.05.2016

Rasys Mini Marathon Llundain 2016

Fe wnaeth tri deg chwech o athletwyr gorau ifanc Cymru deithio i Lundain i rhedeg yn rasys Mini Marathon Llundain. Hon oedd y 14fed blwyddyn yn olynnol ble fuodd timau Ysgolion Cymru yn mynychu'r digwyddiad mawreddog hwn a gynhaliwyd dros 3 millitir olaf y cwrs ble wnaeth 2000 o blant cystadlu. Roedd yn gyfle i athletwyr Cymru i brofi'u hunain yn erbyn y gorau ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Roedd timau o 6 yn y categoriau o dan 13, 15, a 17 wedi cael ei dewis o berfformiadau dros gyfres o ddigwyddiadau trawsgwlad a gynhaliwyd dros y misoedd dwethaf.



Yn rhan o'r tim oedd 2 aelod o Bl 7 a 8 Ysgol Bro Myrddin ac aelodau Harriers Caerfyrddin. Roedd Daisy Thompson yn 12fed (18.11) ac Iwan Glynn yn 20fed (16.57) yn y rasus o dan 13, ac yn helpu'r timau i orffen yn gyntaf a thrydydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.